



Ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn gan Ysgolion ar gyfer 2016/17

Cynigir y trefniadau canlynol ar gyfer derbyniadau i Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yng Ngheredigion am y flwyddyn academiaidd 2016/17.

1. Polisi Derbyn

- a) Yr Awdurdod Lleol (ALI) yw'r awdurdod derbyn, heblaw mewn ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr lle mae'r corff llywodraethol yn awdurdod derbyn.
- b) Caiff rhieni nodi eu bod yn ffafrio rhyw ysgol neu'i gilydd ac mae'n rhaid i'r awdurdod derbyn gydymffurfio â'r dymuniad hwnnw oni bai y byddai gwneud felly yn amharu ar ddarparu addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau. Os bydd lle ac adnoddau yn yr ysgol darperir y lle. Dylai pob darpar riant nodi'r hyn y mae'n ei ffafrio yn ysgrifenedig. (Ceir Ffurflenni Derbyn Ysgol ymhob ysgol ac ar wefan Cyngor Sir Ceredigion: www.ceredigion.gov.uk)

Hysbysir rhieni drwy lythyr gan yr ALI o ganlyniad eu cais am dderbyniad.

- c) Dosrennir lleoedd hyd at rif derbyn yr ysgol. Fodd bynnag, os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r rhif derbyn, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio canlynol, a restrir yn nhrefn blaenoriaeth, i ddosrannu lleoedd:

- plant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal;
- yr ysgol a ffafriwyd yw'r ysgol addas agosaf ac mi fydd brawd neu chwaer* gan y plentyn yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu;
- yr ysgol a ffafriwyd yw'r ysgol addas agosaf;
- plant lle nad yw'r ysgol yn ysgol addas agosaf ond mi fydd brawd neu chwaer* gan y plentyn yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.

(*Mae hanner brodyr a hanner chwiorydd, llysfrodyr a llyschwiorydd a phlant mabwysiedig a maeth sy'n byw yn yr un tŷ yn cyfrif fel brodyr neu chwiorydd.)

Os bydd mwy nag un ymgeisydd yn sgorio'n gyfartal, cynigir lle i'r disgybl sy'n byw agosaf at yr ysgol.

Mesurir pob pellter yn ôl y pellter cerdded byrraf rhwng prif gât yr ysgol agosaf a'r man lle cwrdd anheddle'r disgybl â'r briffordd gyhoeddus.

Oni bydd yr Awdurdod yn gallu cynnig lle i blentyn yn yr ysgol sydd ddewisaf ganddo/i yn ystod y rownd dderbyn arferol cedwir ei (h)enw ar restr aros tan y 30^{ain} o Fedi. Rhoddir blaenoriaeth am leoedd yn ôl y meini prawf uchod ac nid yn ôl y dyddiad pryd y cyflwynwyd cais am le yn wreiddiol.

Derbynnir disgyblion tramor i ysgol lle gellir yn rhesymol wneud darpariaeth briodol i gwrdd â'u hanghenion.

Ni chaniatâ'r ALI dderbyniadau ar sail dethol na bandio nac ar sail cyfweld â rhieni na chyfraniad ariannol i'r ysgol.

2. Rhif Derbyn a Chapasiti

Cyfrifir rhifau derbyn ar sail fformiwla Llywodraeth Cymru sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chapasiti'r ysgol. Mae'r rhifau derbyn ar gyfer 2016/17 wedi'u hatodi.

3. Dyddiadau Derbyn i Ysgolion

Yng Nghymru, mae pob plentyn yn teilyngu addysg feithrin ran-amser yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Dylai rhieni gysylltu â'r Awdurdod Lleol am wybodaeth ynglŷn â lleoliad y ddarpariaeth feithrin.

Nid yw'n ofynnol yn ôl y Gyfraith i blentyn ddechrau ysgol tan y tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Cyrhaeddir yr oed ysgol gorfodol gan ddyddiadau a bennwyd gan Llywodraeth Cymru ar gyfer Tymhorau'r Hydref, y Gwanwyn a'r Haf. Y dyddiadau hyn yw'r 31ain o Awst, yr 31ain o Ragfyr a'r 31ain o Fawrth.

Yng Ngheredigion, gellir derbyn plant i ddosbarth derbyn yr ysgol yn ystod y tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

4. Dyddiad Cau i Geisiadau am Dderbyniad i Ysgol Gynradd

Y dyddiad cau i geisiadau ddod i law am dderbyniad i ysgolion cynradd ym mis Ionawr, mis Ebrill neu fis Medi 2016 fydd y 30^{ain} o Ebrill 2015. Bydd eisiau ceisiadau am dderbyniad yn ystod blwyddyn galendr 2017 erbyn y 29^{ain} o Ionawr 2016. Bydd derbyniadau'n digwydd ar sail dymhorol. (Mae Ffurflenni Derbyn Ysgol ar gael ymhob ysgol ac ar wefan Cyngor Sir Ceredigion: www.ceredigion.gov.uk)

Ystyrir pob cais sy'n dod i law am ysgol benodol gyda'i gilydd ar ôl y dyddiad cau. Os bydd gordanysgrifio, defnyddir y meini prawf a ddangosir ym mharagraff 1 c) uchod.

5. Efeilliaid a Genedigaethau Lluosog eraill

Os yw'r lle terfynol â ddyranwyd hyd y rhif derbyn yn un o enedigaethau lluosog, yna bydd yr Awdurdod hefyd yn derbyn y brodyr/chwirydd eraill.

6. Trosglwyddo o Unedau Meithrin mewn Ysgolion i'r Ysgol Brif Ffrwd

Lle bo plentyn yn mynychu Uned Feithrin mewn Ysgol, nid peth otomatig yw trosglwyddo i'r ysgol brif ffrwd wrth gyrraedd yr oedran statudol. Dylid cyflwyno ffurflen gais erbyn y dyddiad cau priodol i'w hystyried gyda datganiadau dewis eraill a fydd wedi dod i law. Defnyddir y meini prawf derbyn os bydd mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael.

7. Derbyniadau i Ysgolion Uwchradd

Gwahoddir rhieni disgyblion blwyddyn 6 i fynegi pa ysgol uwchradd sydd orau ganddynt yn ystod Tymor Yr Hydref yn y flwyddyn cyn i'r disgybl drosglwyddo. Mi fydd ffurflenni yn cael eu dosbarthu drwy'r Ysgol gynradd i rieni. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw'r diwrnod Ysgol diwethaf yn Nhymor yr Hydref (fel y nodir ar y ffurflen). Y diwrnod cynnig cenedlaethol am lleoedd mewn ysgolion uwchradd, yw 1 Mawrth (neu'r diwrnod gwaith nesaf).

8. Ceisiadau Cynnar a Hwyr

Ni roir blaenoriaeth i geisiadau ar sail y dyddiad a ddônt i law. Caiff ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau eu hystyried ar ôl y ceisiadau a gyflwynir mewn pryd.

9. Derbyniadau ar Adegau Eraill

Caiff derbyniadau i ysgol y tu allan i'r cylchdro arferol e.e. i'r sawl sy'n symud i mewn i'r Sir, eu hystyried yn yr un modd â'r sawl sy'n ceisio am gael eu derbyn ar yr adeg arferol.

10. Trosglwyddo Rhwng Ysgolion

Caiff rhieni ofyn am drosglwyddo ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, yn y lle cyntaf, cynghori'r rhieni i drafod y mater gyda Phennaeth eu hysgol bresennol. Os yw'r rhiant dal yn awyddus i barhau gyda'r trosglwyddiad yna mae angen iddynt lenwi a chyflwyno Ffurflen Dderbyn Ysgol.

11. Mynediad wedi'i Ohirio

Caiff rhieni geisio am le mewn ysgol i blentyn nad yw wedi cyrraedd oedran ysgol orfodol (5) a chaiff yr awdurdod derbyn gytuno, ar gais y rhiant, i'r plentyn ohirio mynediad i'r dosbarth derbyn hyd nes ei f/bod wedi cyrraedd oedran ysgol orfodol. Effaith hyn yw bod y lle'n cael ei gadw i'r plentyn hwnnw ac nad yw ar gael i blentyn arall.

12. Plant pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a phlant Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion)

Mae teuluoedd pobl sydd yn Lluoedd y DU a Gweision eraill y Goron yn cael eu symud o gwmpas y DU ac o dramor yn aml, a hynny'n aml ar fyr rybudd.

O ganlyniad, ystyrir ceisiadau am leoedd Ysgol ar gyfer y flwyddyn Ysgol sydd i ddod os cânt eu cyflwyno ynghyd â llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn datgan dyddiad dychwelyd. Fe ddyrennir lleoedd Ysgol ymlaen llaw os bydd yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf pan fydd yn symud i'w leoliad newydd.

Derbynnir hefyd gyfeiriadau post uned gan bersonél y lluoedd arfog os na fydd cyfeiriad cartref newydd ar gael.

13. Disgyblion wedi'u Gwahardd

Gall yr ALI siarsio ysgol i dderbyn disgybl sydd wedi cael ei (g)wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy "yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad pan ddaeth y diweddaraf o'r gwaharddiadau i rym".

14. Apeliadau

Os bydd rhieni'n aflwyddiannus yn eu cais am le ar gyfer eu plentyn mewn ysgol o'u dewis, cânt eu hysbysu'n ysgrifenedig o'r rheswm/rhesymau am hynny ac o'u hawl i gyflwyno'u hachos gerbron panel apêl annibynnol. Dylai llythyrau apêl gael eu hanfon gan rieni at Bennaeth y Gwasanaethau Dysgu o fewn 10 niwrnod gwaith i'r dyddiad yr hysbyswyd bod cais am le wedi bod yn aflwyddiannus.

15. Fforwm Derbyn

Bydd Fforwm Derbyn Ceredigion yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i drafod materion derbyn lleol. Cynrychiolir prifathrawon, llywodraethwyr, rhieni ac awdurdodau esgobaethol.